# Y Teleffonydd



Llun 1 Prostooleh-Freepik.com

Chi fydd y teleffonydd cyntaf ac yna'r teleffonydd yn gweithio ar ran y gwasanaeth ambiwlans. Byddwch yn cael y sgwrs ganlynol gyda'r galwr.

**Teleffonydd:** Pa wasanaeth argyfwng ydych chi ei angen?
**Helpwr:** Ambiwlans, ac ar frys.
**T:** Yn eich cysylltu nawr.
**Teleffonydd Ambiwlans:** Beth yw natur yr argyfwng?

*Mae'r helpwr yna'n disgrifio beth sy'n digwydd (y claf yn anymwybodol yn yr ystum adferol, personau eraill wedi rhedeg i ffwrdd, lleoliad y digwyddiad, rhesymau posibl dros gyflwr y person ifanc - poteli alcohol gwag). Byddwch am gael gymaint o wybodaeth â phosibl. Rhaid i chi allu cyfeirio ambiwlans i'r lleoliad. Os na fydd y galwr yn rhoi'r wybodaeth hwn i chi, rhaid i chi ddyfalbarhau hyd nes y cewch ddigon o wybodaeth i sicrhau'r lleoliad cywir.*

**Er enghraifft:**
**TA:** Ymhle yn union mae'r anafedig?
*Pan fyddwch yn fodlon gallwch barhau.*
**TA:** A oes gan yr anafedig unrhyw anafiadau amlwg?
**H:** Na
**TA:** A oes unrhyw berygl pellach i'r anafedig neu i bobl eraill?
**H:** Beth ydych chi'n feddwl?
**TA:** A oes unrhyw wydr wedi torri o amgylch yr anafedig?
**H:** Na
**TA:** A oes unrhyw arwydd bod ei ffrindiau'n dychwelyd?
**H:** Na
*Efallai bod hwn yn ymddangos yn gwestiwn od, ond pe byddent y dychwelyd a'u bod dan ddylanwad alcohol gallai'r ffordd y byddant yn gweld y sefyllfa un un afresymol. Gallent weld yr helpwyr*


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

*fel bygythiad a bod yn anghyfeillgar tuag atynt. Mae eich diogelwch chi yr un mor bwysig â lles yr anafedig.*

**TA:** Mae ambiwlans ar ei ffordd ac fe fydd gyda chi ymhen ychydig.

*Bydd y Teleffonydd Ambiwlans yn cymryd manylion y galwr, a chânt eu cofnodi gyda'r digwyddiad.*

**Diwedd y chwarae rôl.**



Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023